

Bwrdd Cyngori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân**29 Medi 2017, Canolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd****Cofnodion****Aelodau**

Michael Prior (MP)	Cadeirydd Annibynnol
Cyng. Claire Mills (CM)	Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cyng. Sue Pickering (SP)	Awdurdod Tan ac Achub De Cymru
Grant Mayos (GM)	Undeb y Brigadau Tân, Aelod y Cyngor Gweithredol dros Gymru
Paul Scott (PS)	Cymdeithas y Swyddogion Tân

Swyddogion yn bresennol

Richard Fairhead (RF)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Kevin Jones (KJ)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Phil Haynes (PH)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Eraill yn bresennol

Cyng. Bryan Apsley (BA)	Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
Clair Alcock (CA)	Cymdeithas Llywodraeth Leol
Claire Hey (CH)	Cymdeithas Llywodraeth Leol
Chris Mulholland (CM)	Adran Actiwari'r Llywodraeth

Swyddogion Llywodraeth Cymru (Gweinyddiaeth)

Kerry Citric (KC)	Cangen y Gwasanaethau Tân
Cerys Myers (CLM)	Cangen y Gwasanaethau Tân
Natalie Spiller (NS)	Cangen y Gwasanaethau Tân

Ymddiheuriadau

Cyng. Rodney Skelland	Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru
Dawn Docx	Awdurdod Tan ac Achub Gogledd Cymru
Mick Crennell	Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân
Sean Starbuck	Undeb y Brigadau Tân
Adrian Hughes	Undeb Diffoddwyr Tan Wrth Gefn

Arsylwyr

Iwan Cray (IC)	Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Chris Barton (CB)	Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Julie Brown (JB)	Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru

1. EITEM AGENDA 1 – CROESO A CHYFLWYNIADAU

1.1 Croesawodd MP bawb i'r cyfarfod ac ymestyn croeso i'r Cynghorwyr Clair Mills, Sue Pickering a Bryan Apsley a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am y tro cyntaf. Croesawodd MP hefyd Chris Mulholland o Adran Actiwari'r Llywodraeth (GAD), a

Clair Alcock a Claire Hey o'r Gymdeithas Llywodraeth Leol. Nododd MP bod ymddiheuriadau wedi eu derbyn gan Dawn Docx, Mick Crennell, Sean Starbuck ac Adrian Hughes.

1.2 Cydnabu MP bod nifer o arsylwyr yn bresennol hefyd.

Cydymdeimlodd MP ag Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru am farwolaeth drist y Cyng. Janice Dudley a arferai fod yn aelod o Fwrdd Cynghori Cymru ar y Cynllun (SABW).

1.3 Diolchodd MP i bawb am ddod i'r cyfarfod ar ôl sesiwn hyfforddi estynedig ar bensiynau a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y dydd. Esboniodd MP bod y cyfarfod wedi'i drefnu'n benodol i ganolbwyntio ar werthusiad 2016 ac na fyddai'n dilyn trefn arferol cyfarfodydd SABW. Byddai cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r materion a oedd yn codi yn cael eu trafod yn y cyfarfod llawn nesaf a oedd i'w drefnu ar gyfer diwedd mis Tachwedd.

2. EITEM AGENDA 2 – GWERTHUSIAD 2016

- **Diweddariad ar Dybiaethau Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân a'r effaith ar Gymru**

2.1 Cyflwynwyd CM gan MP i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Werthusiad 2016. Esboniodd CM y byddai, yn rhan o'i gyflwyniad, yn cynnwys y cefndir i bennu tybiaethau, crynodeb o'r tybiaethau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer gwerthusiad 2016 yn Lloegr a sut y byddai'r tybiaethau hynny yn effeithio ar Gymru. Esboniodd CM mai ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru oedd ef ac nid i SABW.

Amseru ar gyfer tybiaethau Cymru

2.2 Esboniodd CM y byddai adroddiad drafft o dybiaethau cychwynnol Cymru yn cael ei ddarparu i SABW cyn y cyfarfod sydd wedi ei drefnu i'w gynnal ym mis Tachwedd. Byddai CM yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno'r canfyddiadau ac ymateb i unrhyw ymholiadau a godwyd gan SABW. Byddai'n ofynnol i SABW nodi sylwadau ar yr adroddiad drafft erbyn canol mis Rhagfyr.

2.3 Ychwanegodd CM y byddai rhai o dybiaethau Cymru yr un fath â'r tybiaethau yn Lloegr ac esboniodd bod y dull hwn yn debyg i hwnnw a ddefnyddiwyd ar gyfer Gwerthusiad 2012. Roedd hyn oherwydd bod maint Cynlluniau Cymru yn golygu nad oes llawer o ddata ar gael ar gyfer meysydd penodol, a bod y gyfres fwy o ddata a geir yn Lloegr felly yn rhoi llinell sylfaen mwy manwl gywir. Dywedodd KC y byddai Llywodraeth Cymru yn dosbarthu'r adroddiad tybiaethau a ddarparwyd i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn y gwerthusiad diwethaf i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfarfod sydd i ddod.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i ddosbarthu'r adroddiad tybiaethau i'r Awdurdodau Tân ac Achub.

Gwerthusiad 2016 yn Lloegr

2.4 Cyfeiriodd CM at dybiaethau penodol i'r cynllun ar gyfer gwerthusiad actiwaraid 2016 o gynlluniau pensiwn diffoddwyr Tân yn Lloegr a oedd wedi eu rhannu â SABW er gwybodaeth. Pwysleisiodd CM y dylid trin y ddogfen yn gyfrinachol ac na ddylid ei rhannu'n fwy eang.

2.5 Esboniodd CM bod y newid allweddol i'r tybiaethau yn ymwneud â marwolaethau pensiynwyr. Roedd y dadansoddiad o nifer y marwolaethau rhwng 2012 a 2016 yn awgrymu bod pensiynwyr yn byw yn hwy. Gofynnodd KJ sut yr oedd y data yn cymharu â gweddill y boblogaeth o bensiynwyr. Cadarnhaodd CM bod disgwyliad oes yn uwch nag ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol. Esboniodd CM bod y broses o gasglu data wedi gwella yn rhan o Werthusiad 2016 a oedd wedi galluogi GAD i ddadansoddi'n fwy cywir pa effaith y byddai'r cyfraddau marwolaeth yn ei chael ar y cynlluniau. Esboniodd CM y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau marwolaeth yn arwain at gynnydd mewn cost i bob aelod o'r cynllun; gan arwain felly at gynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr. Esboniodd CM bod GAD wedi cynnig lleddfu'r anwadalrwydd yn y tymor byr drwy gyfrifo cyfartaledd tybiaeth 2012 a phrofiad 2012-16. Byddai'r newid yn achosi cynnydd o oddeutu 1.7% yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr yn Lloegr a chynnydd o 0.7% ar gost y cap cost. Er hynny, nodwyd y byddai'r rhan fwyaf o effaith hyn yn cael ei wrthbwysio gan newidiadau i'r cyfraddau gwella yn y tymor hwy. Byddai tybiaethau ONS newydd sydd i ddod ym mis Hydref yn effeithio ar y cyfraddau tymor hwy hyn a'r gobaith yw y bydd y rhain ar gael ar gyfer cyfarfod SABW ym mis Tachwedd.

2.6 Cyfeiriodd CM at dybiaethau oed ymddeol arferol o wasanaethu – cynigiwyd newid i gynllun 1992 ac ychwanegu tybiaeth newydd ar gyfer y cynllun diwygiedig, ond byddai'r lleill yn aros fel y'u pennwyd yng ngwerthusiad 2012. Ni ddisgwyliwyd y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith o bwys ar y gwerthusiad. Cwestiynodd PS y dybiaeth y byddai 75% o'r diffoddwyr tân yng nghynllun 2015 yn ymddeol yn 60 oed. Nododd CA bod Bwrdd Cynghori'r Cynllun yn Lloegr hefyd wedi gofyn am gyngor actiwaraid annibynnol a oedd yn gyson â thybiaethau GAD. Nodwyd bod gwahanol ffactorau ymddeol yn gynnar yn berthnasol yng nghynllun 2015 yng Nghymru.

2.7 O ran ymddeoliadau ar sail afiechyd, cynigiodd GAD gadw tybiaethau 2012. Roedd y data a ddarparwyd ar nifer yr ymddeoliadau haen uchaf wedi bod yn amhendant ac felly byddai'r dybiaeth flaenorol, sef 40% yn cael ei defnyddio. Gofynnodd CM i SAB a oeddynt yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth ychwanegol i helpu i gefnogi'r dybiaeth. Cadarnhaodd yr Awdurdodau Tân ac Achub bod ganddynt ddata cadarn ar nifer yr ymddeoliadau ar sail afiechyd wedi eu rhannu yn ymddeoliadau haen isaf a haen uchaf a'u bod yn hapus i rannu'r wybodaeth hon â GAD. Byddai cydweithwyr Llywodraeth Cymru yn cydgysylltu'r ffurflenni.

CAM GWEITHREDU: Awdurdodau Tân ac Achub i ddarparu data i Lywodraeth Cymru ar ffurflenni data ar afiechyd, wedi eu rhannu i ymddeoliadau haen isaf ac ymddeoliadau haen uchaf.

2.8 Esboniodd CM, bod GAD, yn rhan o werthusiad 2012-16, wedi ystyried digwyddiadau a oedd wedi digwydd a allai fod wedi effeithio ar aelodaeth y cynllun yn y cyfnod 2012-2016 (gan gynnwys cynnydd yng nghyfraddau cyfraniadau aelodau, cyflwyno cynllun 2015 a'r cap tâl yn y sector cyhoeddus) ac roeddynt yn

ymwybodol na fydd unrhyw dynnu'n ôl o'r cynllun yn ystod y cyfnod hwn o reidrwydd yn parhau mewn modd tebyg.

2.9 Cyfeiriodd CM at y data Optio Allan yn Lloegr a oedd wedi awgrymu bod gostyngiad yn nifer yr achosion o optio allan yn 2016-17 o'i gymharu â 2015-16. Darparodd KC gopïau o'r data Optio Allan a gasglwyd yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwnnw ac roeddent yn awgrymu bod y sefyllfa yng Nghymru i'r gwrthwyneb i'r sefyllfa yn Lloegr gan fod y cyfraddau optio allan yn uwch yn 2016-17 nag yn 2015-16. Dywedodd KC y byddai'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno i GAD i gyfrannu at eu canfyddiadau ond gofynnodd i'r Awdurdodau Tân ac Achub adolygu'r ffigyrau i sicrhau bod y data am optio allan yn gywir. Cwestiynodd PH pa un a fyddai'r Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod (CETV) yn effeithio ar y ffigyrau. Dywedodd CM na fyddai CETV yn rhan o'r ymarfer a'u bod dim ond yn dymuno gwybod pryd y peidiodd yr aelodau â bod yn weithredol.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i roi data ar ffurflenni optio allan i GAD. Llywodraeth Cymru i ddosbarthu fersiwn electronig o'r data ar optio allan i'r Awdurdodau Tân ac Achub er mwyn gwirio eu cywirdeb. Llywodraeth Cymru i roi gwybod i GAD am unrhyw anghysondebau.

2.10 Siaradodd CM am dâl dyrchafu ac esboniodd y ceir tybiaethau ar wahân ar gyfer amser cyflawn (yn seiliedig ar wasanaeth) a'r System Dyletswydd Wrth Gefn (RDS) (yn seiliedig ar oed). Cynigiodd GAD y dybiaeth newydd ar gyfer aelodau wrth gefn arbennig i fod yr un fath â'r dybiaeth wrth gefn safonol. Roedd y 'dadansoddiad o broffil' wedi awgrymu bod tybiaeth 2012 yn parhau i fod yn briodol. Gofynnodd PH pa un a fyddai'r broses Cynllun yn Talu yn effeithio ar y gwerthusiad. Dywedodd CM y byddai colled i'r cynllun pensiwn i ddechrau ond y byddai taliadau pensiwn is yn y tymor hwy yn cydbwyso hynny. Ychydig iawn o effaith fyddai ar y gwerthusiad. Esboniodd PH bod 80% o'r rheolwyr ardal yn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn gymwys i ymddeol ar hyn o bryd o gynllun 1992 ac y gallai'r newid yn lefel y Lwfansau Oes effeithio arnynt. Ychwanegodd PH y gallai nifer o swyddogion gael eu heffeithio hefyd gan y newid i Lwfans Blynnyddol (e.e. yn dilyn dyrchafiad ac ati).

2.11 Soniodd CM am y gwaith dadansoddi a wnaed i gymharu'r cynnydd mewn tâl pensiynadwy rhwng 2012 a 2016. Roedd y canfyddiadau yn awgrymu na fu unrhyw gynnydd sylweddol mewn tâl pensiynadwy. Cwestiynodd CM yr ymagwedd tuag at y trefniadau criwio amser cyflawn amgen yng Nghymru a'r modd o drin lwfansau yn hynny o beth, gan nodi y gallai hyn effeithio ar gostau'r cynlluniau a gwerthusiadau yn y dyfodol. Dywedodd PH bod gwahanol gontractau ar waith ym mhob Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru. Ychwanegodd KJ bod Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn aros am benderfyniad gan yr Ombwdsmon Pensiynau ynghylch tâl pensiynadwy. Ychwanegodd GM ei fod yn aros am wybodaeth gan Swyddogion Cenedlaethol Undeb y Brigadau Tân ynghylch y potensial am gytundeb ehangach ar dâl pensiynadwy yn Lloegr drwy'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a gofynnodd i Dâl Pensiynadwy gael ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i gynnwys Tâl Pensiynadwy ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf.

- **Cyfarwyddiadau Cap Cost (SCAPE)**

2.12 Cyfeiriodd CM at y gostyngiad yng nghyfradd disgownt SCAPE o 3% i 2.8% a fyddai'n achosi pwysau tuag at i fyny ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr. 17.1% o dâl oedd cap cost cyflogwr Cynllun Cymru, yn unol â'r hyn a nodir yn Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. Esboniodd CM bod Trysorlys EM wedi nodi y byddai'n newid ei gyfarwyddiadau i sicrhau bod y newid yn y gyfradd ddisgownt wedi'i negyddu yn asesiad cost y cap cost gan felly ddileu'r gofyniad i unrhyw ddiwygiad i'r cap costau mewn rheoliadau cynllun unigol. Byddai cyfradd ddisgownt SCAPE yn parhau i effeithio ar gyfraddau cyfraniadau cyflogwyr.

- **Costau Gwasanaethau a Roddwyd**

2.13 Soniodd CM am y costau sy'n gysylltiedig â'r materion sy'n ymwneud â chynlluniau pensiwn diffoddwyr tân o ran eu heffaith ar gostau gwasanaethau a roddwyd, a'r modd o'u trin yn y gwerthusiad a dull y cap cost:

- Y taliadau ychwanegol a wnaed ar ôl penderfyniad yr Ombwdsmon Pensiynau yn achos Milne.
- Y dewis i aelodau wrth gefn cymwys brynu gwasanaethau a roddwyd yn adran ddiwygiedig/arbennig cynllun 2006.
- Ad-dalu cyfraniadau cyflogeion a delir i ddiffoddwyr tân cymwys a dalodd gyfraniadau ar ôl iddynt gyflawni eu huchafswm gwasanaeth pensiynadwy yng Nghynllun 1992 cyn eu bod yn 50 oed.

2.14 Esboniodd CM bod y tri mater yn gyffredin mewn cynlluniau diffoddwyr tân ledled y DU. Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymgynghori â Bwrdd Cynghori y Cynllun dros Loegr (SABE) ynghylch sut y dylid ymdrin â materion yn y broses werthuso (sy'n penderfynu'r gyfradd cyfrannu sy'n daladwy gan gyflogwyr) a dull y cap cost. Ychwanegodd KC bod y papur a gyflwynwyd i SABE wedi ei ddosbarthu i SABW ym mis Awst gan ofyn am sylwadau. Roedd Undeb y Brigadau Tan wedi nodi eu cefnogaeth i'r safbwynt a bennwyd gan SABE ond dim ond Awdurdod Tân ac Achub De Cymru oedd wedi darparu sylwadau ysgrifenedig ychwanegol. Er bod SABE wedi rhoi sylwadau i'r Swyddfa Gartref, cadarnhaodd CM bod y Llywodraeth ganolog yn parhau i ystyried sut y byddai'r costau gwasanaethau a roddwyd hyn yn cael eu trin ac felly roedd cyfle o hyd i SABW hefyd nodi ei sylwadau.

2.15 Dywedodd CA bod SABE wedi gofyn am gyngor gan arbenigwyr o'r Awdurdodau Tân ac Achub yn rhan o'u hystyriaethau cyn cyflwyno eu hymatebion i'r Swyddfa Gartref. Dywedodd CA ei bod yn hapus i rannu'r dogfennau hyn â SABW.

CAM GWEITHREDU: Clair Alcock i rannu dogfennau a ddarparwyd i SABE ynghylch costau gwasanaethau a roddwyd.

2.16 Dywedodd PH bod barn Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn adlewyrchu barn SABE. Gofynnodd KC i SABW gadarnhau eu barn. Cadarnhaodd pob aelod SABW (cyflogwyr a chyflogeion) eu bod yn cefnogi safbwynt SABE ynghylch costau

gwasanaethau a roddwyd a chytunwyd i Lywodraeth Cymru adlewyrchu'r farn honno mewn ymateb i Drysorlys EM.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i roi barn y SAB i Drysorlys EM ynghylch costau gwasanaethau a roddwyd.

2.17 Diolchodd MP i CM am ei gyfraniad i'r cyfarfod a dywedodd y byddai CM yn bresennol yn y cyfarfod nesaf i gyflwyno tybiaethau drafft ar gyfer Cymru. Pwysleisiodd MP pa mor bwysig oedd hi i'r aelodau ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod y tybiaethau drafft yn fanwl.

CAM GWEITHREDU: Llywodraeth Cymru i gadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf.